

## POLISI DI-BAPUR CYNGOR TREF PORTHMADOG

### 121.2.21

**Cynnig Cyng Aled Griffith :- Lleihau papurau/Costau/Amgylchedd – y** Clerc i yrru dogfennau electroneg yn fisol i bob Cynghorydd (heblaw ceisiadau nawdd ariannol).

**Penderfynwyd :-** y Clerc i yrru holl ddogfennau pecyn y Cyngorwyr allan ar lein i bob aelod o'r Cyngor onibai fod Cynghorydd yn hysbysu'r Clerc am ei ddymuniad i dderbyn copi papur o'r pecyn. Cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Richard Williams yn eilio.

Yng nghyfarfod Cyngor Tref Porthmadog ar Chwefror 9fed 2021 penderfynwyd derbyn y cynnig uchod gan y Cyng Aled Griffiths a'i fabwysiadu fel polisi ar gyfer y dyfodol.

Golyga hyn felly:-

- Bydd pob gohebiaeth rhwng y Clerc â'r Cyngorwyr yn cael ei anfon yn ddigidol ar ffurf ebost.
  - Bydd Rhaglen Cyfarfod y Cyngor a Chofnodion cyfarfodydd blaenorol yn cael eu atodi i ebost.
  - Bydd pob gohebiaeth / dogfennaeth ar gyfer cyfarfodydd yn cael eu atodi i ebost.
  - Bydd Ceisiadau Cynllunio gan Gyngor Gwynedd yn cael eu gyrru ymlaen ar lein i'r Cyngorwyr er mwyn iddynt gael amser digonol i'w hastudio mewn digon o fanylder er mwyn unai rhoi sylwadau arnynt yn y cyfarfod nesaf ,neu, os yw amser yn brin, cynnig sylwadau eu hunain arnynt.
- **Os bydd Cynghorydd yn dymuno copi papur ychwanegol o'r dogfennau uchod yna rhaid iddynt gysylltu â'r Clerc i'w hysbysu o'u dymuniad.**

Arwyddwyd: *Cyngorydd Llywelyn Rhys*      Cadeirydd 2021/2022

Dyddiad : Mai 11 2021